Ydych chi'n

Fusnes neu'n Gyflogwr

yn Rhondda Cynon Taf?

Wyddoch chi fod y Cyngor ac ystod o bartneriaid yn cynnig cyngor a chymorth wedi'u teilwra i fusnesau lleol?

Manteisiwch ar gymorth a chefnogaeth ar gyfer grantiau busnes, recriwtio, cyllid, adnoddau dynol a gwasanaethau iechyd galwedigaethol

Ewch i **www.rctcbc.gov.uk/CymorthCyflogaethaChymorthiGyflogwyr** am ragor o wybodaeth am Recriwtio, Swyddi Gwag, Hyfforddiant | Grantiau Cymorth i Bartneriaid | Cymorth i Fusnesau a Chadw'n | Iach yn y Gwaith.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymunedau am Waith+
Communities for Work+

Cadw'n Iach yn y Gwaith
Staying Well at Work
Datblygu Cydnerthedd, Ffyniant a Lles
Building Resilience, Prosperity and Wellbeing

Undeb Ewropeaidd
European Union

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Gyrfa Cymru
Careers Wales

jobcentreplus
canolfanbydgwaith

Rhondda Cynon Taf

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni: **Ffôn: 01443 425761 • E-bost: CymorthiWeithwyr@rctcbc.gov.uk**

Recriwtio, Swyddi Gwag a Hyfforddiant ar gyfer Maes Penodol

Mae gennym ni garfan o staff a Swyddogion Cyswllt Cyflogwr ar gael i'ch cefnogi chi i lenwi swyddi gwag, i gynorthwyo â'r broses recriwtio ac i fanteisio ar ein rhwydweithiau helaeth i ddod o hyd i ymgeiswyr addas. Mae hefyd modd inni gefnogi gweithwyr sy'n awyddus i hogi eu sgiliau, gweithio rhagor o oriau, newid eu gyrfa neu weithio mewn meysydd penodol. Mae hefyd cefnogaeth i gael mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli a chyfleoedd lleoliad gwaith.

Ceri-Ann Sheen: (Rheolwr Llwybrau at Gyflogaeth)
07825 675 779 | Ceri-ann.Sheen@rctcbc.gov.uk

Suzanne Lockwood: (Profiad Gwaith a Gwirfoddoli)
07769 164 686 | Suzanne.Lockwood@rctcbc.gov.uk

Cwm Rhondda
Julian Watts: 07385 406 260 | Julian.Watts@rctcbc.gov.uk
Matthew Lloyd: matthew.lloyd@dwp.gov.uk
Joanne Harris: joanne.harrison2@dwp.gov.uk
Ann Alderman: patricia.alderman@dwp.gov.uk

Cwm Cynon
Lyn Scorey: 07385 406 137 | Lyn.Scorey@rctcbc.gov.uk
Sian Harris: sian.harris@dwp.gov.uk

Taf-elái
Anwen Paull: 07385 406 195 | Anwen.Paull@rctcbc.gov.uk
Richard Morgan: richard.morgan4@dwp.gov.uk
Lindsey Beasley: lindsey.beasley@dwp.gov.uk

Canolfan Byd Gwaith

Angen cymorth i gyflogi gweithwyr? Mae modd i'r Ganolfan Byd Gwaith eich helpu chi.

Mae gan ein carfanau o gyflogwyr yr arbenigedd a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddod o hyd i'r ymgeiswyr delfrydol.

Rydyn ni eisoes yn gweithio'n agos â miloedd o gyflogwyr ledled y wlad i'w cynorthwyo nhw â'u hanghenion recriwtio trwy ddod o hyd i ymgeiswyr addas ar ein systemau.

Ffoniwch Sian Davies (Gweithrediadau Cyflogwyr a Phartneriaethau) ar 07717 456659 | sian.davies@dwp.gov.uk

Gyrfa Cymru

Mae gan Gyrfa Cymru ystod o fuddion i gyflogwyr megis mynediad at Hysbysfwrdd Swyddi i hysbysebu swyddi gwag a charfan Ymgysylltu â Busnesau i wella cysylltiadau ag ysgolion.

Mae modd i gyflogwyr hysbysebu eu swyddi gwag ar Hysbysfwrdd Swyddi Cymru'n Gweithio trwy e-bostio vacancies@careerswales.gov.wales a nodi manylion ac ychwanegu dolen at yr hysbyseb swydd.

Mae rhaglen ReAct+ Llywodraeth Cymru yn cynnwys cymhorthdal recriwtio a hyfforddi i gyflogwyr.

Trwy gyflogi un gweithiwr cymwys mae modd i gyflogwr dderbyn hyd at £3,000* i gynorthwyo â thalu cyflogau am 12 mis. *Mae £1,000 ychwanegol ar gael i gyflogwyr sy'n recriwtio person anabl neu berson ifanc sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae modd i gyflogwyr sy'n recriwtio person ifanc anabl sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant dderbyn hyd at £2,000 ychwanegol. Caiff y gefnogaeth recriwtio yma'i thalu mewn rhandaliadau chwarterol. Mae modd i gyflogwyr dderbyn hyd at £1,000 am gefnogi gweithiwr newydd i hogi ei sgiliau trwy dderbyn hyfforddiant sy'n berthnasol i'r swydd.

Rhaglen ReAct+ Busnes Cymru sy'n gyfrifol am y Cymhorthdal Recriwtio i Gyflogwyr | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru)

Ffoniwch: 0800 028 4844 neu e-bostiwch Michael.okeefe@careerswales.gov.wales

Cadw'n Iach yn y Gwaith

Nod rhaglen Cadw'n Iach yn y Gwaith yw cefnogi iechyd a lles staff sy'n cael eu cyflogi gan fusnesau bach a chanolig yn Rhondda Cynon Taf. Mae gyda ni garfan o arbenigwyr Adnoddau Dynol, ffisiotherapyddion, nyrsys iechyd galwedigaethol, cynghorwyr a rhagor i helpu i gefnogi eich busnes a'ch staff mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion lles.

Ffoniwch ni ar 01443 827317 neu anfonwch e-bost: CadwnIachynyGwaith@rctcbc.gov.uk

Cymorth a chyngor i fusnesau

Os ydych chi'n fusnes sefydledig, yn unigolyn sydd am sefydlu busnes neu'n unigolyn/grŵp o bobl sy'n awyddus i sefydlu menter gymdeithasol, mae rhwydwaith cryf o wasanaethau cymorth sy'n ymroi i ddiwallu eich anghenion busnes.

Mae Carfan Cymorth Materion Busnes y Cyngor yn cynnig ystod o wasanaethau gan gynnwys:

Cyfleuster Dod o Hyd i Eiddo Masnachol | Cyllid, Achlysuron Busnes
Cyngor wrth Ddechrau Busnes | Tendro a llawer yn rhagor.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â sut i ddefnyddio ein gwasanaethau, ffoniwch: 01443 281124.



www.rctcbc.gov.uk/CymorthCyflogaethaChymorthiGyflogwyr

Twf Swyddi Cymru+

Mae modd i ni roi gweledigaeth newydd a'ch cynorthwyo chi i baratoi eich busnes at y dyfodol.

Mae pobl ifainc yn werthfawr i fusnesau a thrwy ymwneud â Thwf Swyddi Cymru+ byddwch chi'n sicrhau bod modd i'ch busnes chi ddewis o blith talent ifanc mwyaf addawol eich cymuned chi.

Mae'r rhaglen yn arloesol ac yn hyblyg. Mae modd i chi benderfynu sut hoffech chi elwa o'r rhaglen a chreu cyfleoedd arbennig i'r person ifanc rydych chi'n ei gefnogi.

Am ragor o wybodaeth am Dwf Swyddi Cymru+, mynegwch eich diddordeb trwy lenwi ffurflen. Bydd Cynghorydd Ymgysylltu â Chyflogwyr yn cysylltu â chi maes o law.

Mae hefyd modd ffonio llinell gymorth Busnes Cymru ar 03000 6 03000

Cyllid Grant

Mae modd i'r Awdurdod Lleol eich cefnogi chi trwy nifer o grantiau, er enghraifft;

Cronfa Adfer Canol Trefi - Covid 19

Grant Gwrthsefyll Llifogydd - Canol Trefi

Grant Cynnal Canol Trefi

Cronfa Buddsoddi Busnesau

Cyfraddau Busnes

Rhaglen Datblygu Gwledig

Deddf yr Eglwys yng Nghymru

Dydy'r rhestr yma ddim yn gynhwysfawr ac mae'n destun newid.

Mae cymorth ar gael gan sefydliadau eraill

Bwriwch olwg ar ein gwefan:
www.rctcbc.gov.uk/CymorthCyflogaethaChymorthiGyflogwyr i weld yr ystod o gefnogaeth sydd ar gael gan sefydliadau partner gan gynnwys:

Coleg y Cymoedd
Mae Gwasanaethau Busnes Coleg y Cymoedd yn pwysleisio pwysigrwydd cysylltu â sefydliadau allanol, yn enwedig cyflogwyr er mwyn datblygu cyfleoedd partneriaeth.
www.cymoedd.ac.uk/cyflogwyr

Busnes Cymru
Ydych chi'n dechrau busnes? Neu'n awyddus i ddatblygu eich busnes? Bwriwch olwg i weld yr holl wybodaeth, cyngor a chanllawiau bydd eu hangen arnoch chi.
www.busnescymru.llyw.cymru

Ymddiriedolaeth Garbon
Darparu arweiniad arbenigol ar sut i leihau allyriadau carbon, ac yn rhannu eu profiadau ar reng flaen newid yn yr hinsawdd.
www.carbontrust.com

Busnes Cymdeithasol Cymru
Darparu gwybodaeth dechnegol i unrhyw un sy'n ystyried dechrau busnes cymdeithasol. Mae busnesau cymdeithasol yn cynnwys mentrau, cydweithfeydd a busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr. Mae cymorth ar gael gan ein cynghorwyr busnes arbenigol.
www.busnescymru.llyw.cymru

Banc Datblygu Cymru
Mae Banc Datblygu Cymru yn darparu cymorth ariannol i'ch busnes.
www.bancdatblygu.cymru

Ffederasiwn Busnesau Bach
Oes gennych chi gwestiwn? Rydyn ni'n cynnig ystod eang o wasanaethau busnes hanfodol i aelodau, sy'n cynnwys cyngor, arbenigedd ariannol, cefnogaeth a llais pwerus yn y llywodraeth.
www.fsb.org.uk